

# Croeso i Ddosbarth Crwban y môr.



*Athrawes ddosbarth:*

Miss Lowri Jones



*Cynorthwywraig dosbarth:*

Mrs Eleri Gill



*Anifeiliaid Anwes: Fflur a Fflwff*





Dyma dudalen ddosbarth blwyddyn 3. Eleni, mae yna 25 o blant brwdfrydig yn ein dosbarth. Darllenwch ymlaen i gael cipolwg o'r hyn sy'n digwydd ar lawr y dosbarth.

Trwy gydol flwyddyn 3 mi fydd eich plant yn cael digonedd o gyfleoedd i dyfu'n unigolion iach ac hyderus, dinasyddion egwyddorol gwybodus, yn ddysgwyr uchelgeisiol galluog ac yn gyfranwyr mentrus a chreadigol.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu



Yn ystod y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar gael eich plant yn siarad ac yn ysgrifennu'n ddisgrifiadol, annibynnol ac yn hyderus yn y Gymraeg ac yn gweithio'n drawsgwricwlaidd. Dyma'r flwyddyn gyntaf iddynt gael gwersi Saesneg ar lawr y dosbarth.

Gwnewch ddefnydd cyson o 'SpellBlast' ar Hwb trwy gydol y flwyddyn hon. Bydd geiriau sillafu wythnosol yn cael eu hychwanegu iddo, geiriau thematig a chamsillafau cyffredin.

## Rhifedd




Byddwn yn datblygu sgiliau rhif, siâp, trin data a rhesymu yn ystod y flwyddyn mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd drawsgwricwlaidd. Gwnewch ddefnydd cyson o J2blast ar HWB i ddal ati gyda'r tablau hollbwysig!

## Llyfrau darllen



Ceisiwch sicrhau bod eich plentyn yn darllen rhywbeth BOB NOS. Mae llyfrau darllen Saesneg a Chymraeg yn cael eu newid drwy'r wythnos a bydd eich plant yn darllen o leiaf dwywaith yr wythnos felly mae'n hanfodol bod eich plentyn yn cofio dod â'u llyfrau a chofnod darllen i'r ysgol bob dydd. Gall y disgyblion newid eu llyfrau eu hun pan fyddant wedi eu cwblhau ac yn dangos eu bod yn deall yr hyn maent wedi darllen.



## Ymarfer Corff



Mae sesiynau ymarfer corff yn cael eu cynnal ar brynhawn Dydd Llun. Disgwylir i'r disgyblion newid i'w gwisg ymarfer corff cyn cymryd rhan. Cit Ymarfer Corff: Crys t (Lliw eu tŷ) siorts/trowser tywyll ac esgidiau ymarfer corff.

## Gwener Gwych



Ar bob brynhawn Dydd Gwener bydd gweithgareddau allanol yn cael eu cynnal. Bydd angen hen ddillad ac esgidiau glaw ar eich plant.

## Tasgau Dysgu Adref



Bydd tasgau dysgu adref yn cael eu rhoi ar ffurf dewislen ar Hwb ac hefyd yn llyfr dysgu adref eich plentyn yn dymhorol. Mae'r rhain yn ddewisol fodd bynnag, disgwylir i ddisgyblion darllen adref yn ddyddiol ac ymarfer TTBlast a SpellBlast yn amser ei hun.

